## Hysbysiad o wneud

## GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT

## FFORDD YR WYDDGRUG, BWCLE

## GWAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG, BAEAU GYDA CHYFYNGIAD AROS, CLIRFFYRDD SAFLEOEDD BWS A DILEU CYFYNGIADAU

## DIM AROS 7AM – 7PM

Rhoddir rhybudd drwy hyn ar 27 Chwefror 2024, bod Cyngor Sir y Fflint (cyfeirir ato fel “y Cyngor” o hyn ymlaen) wedi gwneud Gorchymyn Arbrofol drwy arfer ei bwerau dan Adran 9, 10 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati fel “Deddf 1984” o hyn ymlaen) a fydd yn golygu:-

1. Atal cyfyngiadau ‘Dim Aros 7am – 7pm’ ar ran o Ffordd yr Wyddgrug, Bwcle, sydd wedi’u cynnwys yng ‘Ngorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgrynhoi) Cyngor Sir y Fflint 2013’

2. Cyflwyno cyfyngiadau ‘Dim Aros ar Unrhyw Adeg’ ar sail Arbrofol ar hyd y darn canlynol o ffordd:

   (a) ar ran o’r ddwy ochr i Ffordd yr Wyddgrug, Bwcle

3. Cyflwyno cyfyngiadau ‘Cyfyngiad ar aros i 20 munud, Dim dychwelyd o fewn 1 awr’ ar sail Arbrofol ar hyd y darn canlynol o ffordd:

   (a) Yn y gilfan ar ochr ogleddol Ffordd yr Wyddgrug, Bwcle

4. Cyflwyno cyfyngiadau ‘Clirffordd Fysiau’ ar sail Arbrofol ar hyd y darn canlynol o ffordd:

   (a) Yn y cilfannau ar ochrau gogleddol a deheuol Ffordd yr Wyddgrug, Bwcle

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol ‘Gorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgrynhoi) Cyngor Sir y Fflint 2013’ yn parhau mewn grym.

Bydd y Gorchymyn Arbrofol yn dod i rym ar 8 Mawrth 2024 am gyfnod o 18 mis. Gellir archwilio copi o’r Gorchymyn, ynghyd â cynlluniau’n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau’r cyngor dros wneud y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol yn Sir Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell Bwcle, y Ganolfan Siopa, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2EF, neu gellwch eu gweld ar ein gwefan, www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoliadau Traffig neu gellwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy e-bostio streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Bydd y Cyngor yn ystyried, maes o law, a ddylai darpariaethau’r Gorchymyn barhau mewn grym am gyfnod amhenodol. O fewn cyfnod o 6 mis wedi i’r Gorchymyn ddod i rym, neu, os yw’r Gorchymyn yn cael ei addasu neu ei amrywio wedi hynny, wedi i’r addasiad neu’r amrywiad hwnnw ddod i rym (pa un bynnag yw’r hwyraf), gall unrhyw un wrthwynebu gwneud y Gorchymyn at bwrpas parhad amhenodol o’r fath.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn, a’r sail ar gyfer gwrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod o fewn chwe mis i’r dyddiad y bydd y Gorchymyn hwn wedi dod i rym, neu’r

dyddiad y bydd unrhyw amrywiad neu addasiad neu’r amrywiad neu’r addasiad diweddaraf wedi dod i rym, gan nodi cyfeirnod SS/TRO/JB/EO-63/2024.

Os yw’n ymddangos yn hanfodol i’r Cyngor ei bod yn angenrheidiol er budd symud traffig mewn modd cyflym, cyfleus neu ddiogel, neu i ddarparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd neu ar gyfer cadw neu wella amwynderau’r ardal mae unrhyw ddarn o ffordd yr effeithir arno gan y Gorchymyn yn rhedeg drwyddi, yna gall swyddog enwebedig y Cyngor, isod, addasu neu atal y Gorchymyn neu ei ddarpariaethau.

Gall unrhyw un sy’n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn Arbrofol (a wnaed ar **27 Chwefror 2024**) neu unrhyw ddarpariaeth ynddo ar sail nad yw o fewn y grymoedd a gyflwynwyd gan y ddeddfwriaeth berthnasol, neu ar sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofynion deddfwriaeth yn gysylltiedig â’r Gorchymyn, wneud cais i’r Uchel Lys o fewn chwe wythnos o **27 Chwefror 2024** i'r diben hwn.

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR.
Dydd Gwener, 1 Mawrth 2024.

DYDDIEDIG 27 CHWEFROR 2024

---

**GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT**

**FFORDD YR WYDDGRUG, BWCLE**

**(GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD AR**

**AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)**

**GORCHYMYN (GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU)**
**(DIWYGIAD RHIF 63) 2024**

---

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a
Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NF

**GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT**

**FFORDD YR WYDDGRUG, BWCLE**

**(GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD AR**

**AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)**

**GORCHYMYN (GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 63) 2024**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adrannau 9, 10 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL**

**<u>Enwi a chychwyn</u>**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 08 Mawrth 2024 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Arbrofol Cyngor Sir y Fflint (Ffordd yr Wyddgrug, Bwcle) (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) (Diwygiad Rhif 63) 2024

2. O'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, bydd Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013 yn cael ei ddiwygio hyd at y mae'n berthnasol i'r ffyrdd a nodir yn Atodlen 1 y Gorchymyn hwn a drwy ddiddymu'r Atodlen Map a nodir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac ychwanegu'r Atodlen Map a nodir yn Atodlen 3 y Gorchymyn hwn.

3. Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) 2013 yn parhau mewn grym.

4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongliad y Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

5. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw ac mae unrhyw gyfeiriad at gynllun yn gyfeiriad at gynllun sydd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn hwn.

6. Yn unol ag adran 10(2) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, gall y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) os bydd yn ymddangos yn hanfodol ei bod yn angenrheidiol er budd symud traffig mewn modd cyflym, cyfleus neu ddiogel, neu i ddarparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd neu ar gyfer cadw neu wella amwynderau'r ardal mae unrhyw ddarn o ffordd a effeithir gan y Gorchymyn yn rhedeg drwyddi, addasu neu atal y Gorchymyn neu ei ddarpariaethau.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau mewn grym am gyfnod heb fod yn hirach na 18 mis o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 y Gorchymyn hwn neu hyd nes mae'n cael ei wneud yn barhaol.

**ATODLEN 1**

**Atal Aros wedi'i Gyfyngu 7am - 7pm**

| Enwau Ffyrdd |
|---|
| Ffordd yr Wyddgrug |

**ATODLEN 2**

**Atodlen Map i'w hatal.**

| Atodlen Map | Diwygiad Taflen |
|---|---|
| AS93 | 3 (o Orchymyn 2013) |
| AS94 | 2 (o Orchymyn 2013) |

**ATODLEN 3**

**Atodlen Map i gael ei chynnwys.**

Dim Aros Ar Unrhyw Adeg / Cyfyngiad ar Aros / Clirffyrdd Bysiau

| Atodlen Map | Diwygiad Taflen |
|---|---|
| AS93 | 4 (sy'n atal diwygiad Taflen 3 o Orchymyn 2013) |
| AS94 | 3 (sy'n atal diwygiad Taflen 2 o Orchymyn 2013) |

21227

| | |
|---|---|
| Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** | ) |
| **CYNGOR SIR Y FFLINT** | ) |
| yn y fan hon | ) |
| ar yr 27ain diwrnod o fis Chwefror 2024 | ) |
| yng ngŵydd:- | ) |

**Y CADEIRYDD**

~~**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**~~

~~**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**~~

**UWCH GYFREITHIWR**

## GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT

## FFORDD YR WYDDGRUG, BWCLE

## GWAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG, BAEAU GYDA CHYFYNGIAD AROS, CLIRFFYRDD SAFLEOEDD BWS A DILEU CYFYNGIADAU

## DIM AROS 7AM – 7PM

## 2024

## Datganiad o’r Rhesymau dros Gynnig Gwneud y Gorchymyn

Ar 27 Chwefror 2024, gwnaeth Cyngor Sir y Fflint Orchymyn Arbrofol i gyflwyno cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg (llinellau melyn dwbl), Clirffyrdd Safleoedd Bws a Baeau gyda Chyfyngiad Aros.

Bydd y mesurau yn gwella diogelwch ar gyfer holl ddefnyddwyr y ffyrdd, drwy gael gwared ar gerbydau sydd wedi parcio mewn lleoliadau allweddol, mynd i’r afael â pharcio anystyriol, cynnal gwelededd, yn ogystal â gwella llif traffig ar hyd Ffordd yr Wyddgrug, Bwcle.

Bydd y mesurau a gyflwynwyd yn cynorthwyo cerbydau Cludiant Cyhoeddus sy’n cael trafferth teithio ar hyd Ffordd yr Wyddgrug, oherwydd cerbydau sydd wedi’u parcio’n anystyriol.

Er lles diogelwch ar y ffordd, mae’r cynigion yn angenrheidiol i osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy’n defnyddio’r ffordd, neu i atal perygl rhag digwydd.

**Ceir manylion am y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn arfaethedig.**


KWilby

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR.
Dydd Gwener, 1 Mawrth 2024.

AREA CODE:AS94
COD ARDAL:AS94

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

Sheet Revision No: 3
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 3
Sheet active from: 01 March 2024
Dalen yn weithredol o: 01 Mawrth 2024




Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250


This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office ©Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ©Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386


## The Flintshire County Council
## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places)
## (Civil Enforcement and Consolidation) (Amendment No 63) Order 2024


## Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
## (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio)
## (Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) (Gwelliant 63) 2024


Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF

Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF

AREA CODE:AS93
COD ARDAL:AS93

Sheet Revision No: 4
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 4
Sheet active from: 01 March 2024
Dalen yn weithredol o: 01 Mawrth 2024




Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250


This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office ©Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ©Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386


# The Flintshire County Council
## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places) (Civil Enforcement and Consolidation) (Amendment No 63) Order 2024

# Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
## (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) (Gwelliant 63) 2024


Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF


Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF

AREA CODE:AS93
COD ARDAL:AS93

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Sheet Revision No: 3
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 3

Sheet active from: 30 August 2022
Dalen yn weithredol o: 30 Awst 2022




Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office ©Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ©Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386

## The Flintshire County Council
## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places)
## (Civil Enforcement and Consolidation) (Amendment No 46) Order 2022

## Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
## (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio)
## (Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) (Gwelliant 46) 2022


Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF

Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF

AREA CODE:AS94
COD ARDAL:AS94

Sheet Revision No: 2
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 2

Sheet active from: 30 August 2022
Dalen yn weithredol o: 30 Awst 2022




Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250


This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office ©Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386


Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ©Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386


## The Flintshire County Council
## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places)
## (Civil Enforcement and Consolidation) (Amendment No 46) Order 2022

## Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
## (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio)
## (Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) (Gwelliant 46) 2022


Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF

Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF




**KEY**

Arfaethedig Dim Aros Ar Unrhyw Adeg
Experimental No Waiting at Any Time (Double Yellow Lines).

Dim Aros Ar Unrhyw Adeg
Existing No Waiting at Any Time (Double Yellow Lines).

Dim Aros 7am - 7pm
Existing No Waiting 7am - 7pm (Single Yellow Lines).

Arbrofol Aros Cyfyngedig Parcio 20 munud Dim dychwelyd am 1 awr.
Experimental Limited Waiting Parking 20mins No return for 1 hour.

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION | | |
|---|---|---|---|---|
| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |

Katie Wilby
Director of Environment.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd.

StreetScene

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Project:

## Mold Road Buckley
## Experimental Yellow Lines

## General Arrangement

(Sheet 1 of 1)

Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF

| Contact Name: Nick Williams | Telephone: 01352 704642 | |
|---|---|---|
| Drawn by: Nick Williams | Fax No: 01352 70 | |
| Checked by: Richard Flood | Date: Feb 2024 | Sheet 1 of 2 |
| Scales at A0: 1:NTS | Drawing No: HT/23/0000/201 | Phase/Rev: C1 |